# Cyngor Cymuned Llandyfriog.

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth yr 11 fed o Ionawr 2022, sef cyfarfod :zoom: o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Carol Davies.

1a ,Yn bresennol ,

Y Cynghorwyr , Derrick Richards , Carol Davies, Towyn Evans, Alan Davies , Wyn Thomas,Ken Jones a Ian James.

1b , Ymddiheuriadau am absenoldeb .

Y Cynghorwyr Ann Jones, Sian Taylor ,Meinir Thomas.

2,Heddlu,

Ymddiheuriadau wrth yr Heddwas Cymunedol , Mr Jeff Kedward.

3 Cynllunio ,

Ty Collen ,Penrhiwllan, -A211016 -:Erection of Agri Storage/ Workshop Shed.:
Dim gwrthwynebiad .

Ceri Villa Cwmcou -A210894 : Proposed rear extension to first floor , to include Bedroom & Bathroom and associated works :
Dim Gwrthwynebiad.

Y Cynghorydd Sir , Wyn Thomas yn datgan diddordeb yn y ddau gais.

4. Gohebiaeth ,

Cyngor Sir Ceredigion,
Cyfarfod Porth Gofal -Cyfarfod :Zoom: -Ionawr 13. am 10.30 y bore .
Croeso i bawb ymuno.

: Walking ,Cycling ,& Horse Riding.
Cyfleoedd ar gael yng Ngheredigion.

Heol Cwmsylltyn , Cwmcou bellch ar agor.

Y Cyngor Sir yn bwriadu cau y ffordd ger Bryngwenith ar Ionawr 28 o 9-30 -15.30 y prynhawn.

5.Materion Ariannol.

| | |
|---|---|
| Mrs Anwen Evans | £345 . 22. |
| Mrs Gillian Davies | £230 . 30. |
| Swalec | £12.81.( du 15/01/22 ) |

Cyfanswm Taliadau = £588. . 33.

(C) Cynghorydd Ken Jones)
(E) Cynghorydd Ian James.

6.Materion trafod.
——————————-

Croeso yn ol ir Cynghorydd Towyn Evans .

Cadarnhaodd y Cynghorydd Sir ,WynThomas fod gwaith ffordd i ddechrau yn Teras Lloyd o Sgwar y : Red Cow: i ystad Cae Berllan yn fuan .
Bydd un ochr y ffordd yn cael ei chadw ar agor i draffig.

Cyfeiriodd hefyd at farwolaeth sydyn Mr Allan Maguire a fu yn Gynghorydd Cymuned am gyfnod gydar Angladd ar y14/01/22 yn ogystal a marwolaeth Mrs Marged Havard ,a fu yn rheolwraig yn Nghartref Henllan am gyfnod hir. Cynhelir ei hangladd Ddydd Mercher y 12 fed o Ionawr.

Dywedodd fod y plant wedi mynd yn ol ir Ysgol er gwaethaf Covid ,gyda y ddau Gartref yn Llandyfriog yn ymdopi yn dda sef Henllan a Blaendyffryn.

Canolfan Frechu Trewen yn brysur iawn .Mae y Cyngor Sir wedi sefydlu Goleuadau Traffig i wneud y sefyllfa yn ddiogel oherwydd y niferoedd sydd yn defnyddio y ganolfan.

Mae rhan fwyaf o goed oedd wedi cwympo yn Henllan wedi ei clirio bellach.

Codwyd y cwestiwn ynglyn a choed mawr sydd wedi ei torri ar safle Mr Wyn a Lyn Davies yn Adpar :Hyde Park:
Beth sydd yn digwydd yna?
Y Cynghorydd Wyn Thomas yn edrych i fewn ymhellach ir mater.

**Y Cyfarfod Nesaf ar y 1 af o Chwefror 2022 am 7.30 yn rhithiol :Zoom:**